Swydd:	**Uwch Ystadegydd**
Adrodd i:	Pennaeth Ystadegau ac Ymchwil
Lleoliad:	Swyddfeydd Data Cymru, Caerdydd
Cyflog	Gradd 5 (£37,451 - £45,558)
Math o gontract:	Parhaol. Mae'n bosibl yr ystyriwn lenwi'r swydd hon i ddechrau drwy secondiad tymor penodedig 2 flynedd.

Y swydd

Mae cyfle cyffrous wedi codi yn ein huwch dîm arweinyddiaeth am ystadegydd cymwysedig sy'n gallu cyfrannu at ein sgiliau presennol ym meysydd data, dadansoddiad ystadegol ac ymchwil.

Bydd y swydd hon yn ffurfio rhan o'n tîm yng Nghaerdydd sy'n cynnig cymorth i awdurdodau a'u partneriaid ledled Cymru. Gan arwain tîm bach sy'n cynnwys gwyddonydd data, ymchwilydd cymdeithasol, swyddog ystadegol ac ystadegydd dan hyfforddiant, bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus y cyfle i arwain gwaith ystadegol ac ymchwil a chyfrannu at siapio'n hymagwedd strategol yn y meysydd hyn.

Swyddogaethau'r swydd hon

Drwy gyflenwi ystod o wasanaethau i gefnogi'n gwaith, bydd deiliad y swydd yn ymgymryd â gwaith perthnasol a allai gynnwys:

- Cyfrannu at arweinyddiaeth strategol y sefydliad;
- Chwarae rôl arweiniol wrth lywio'r gallu ystadegol ac ymchwil o fewn ein sefydliad;
- Dylunio ac ymgymryd â dadansoddiadau data (gan gynnwys data daearyddol-gofodol) yn ôl manylebau diffiniedig, gan drin a thrafod y data yn ôl y gofyn ac ysgrifennu adroddiadau ar y dadansoddiadau;
- Cefnogi defnydd a datblygiad parhaus nifer o systemau gwybodaeth lleol, rhanbarthol a chenedlaethol gan gynnwys rheoli cyfrifon ar gyfer nifer o gontractau masnachol;
- Arwain prosiectau sy'n cynnwys casglu, dadansoddi a defnyddio data perthnasol, yn fewnol ac o fewn sefydliadau cwsmer fel ei gilydd, er mwyn deall anghenion a hyrwyddo gwelliant gwasanaethau;
- Sicrhau ansawdd adroddiadau er mwyn gwirio ystyr data sydd wedi ei echdynnu a gwirio ei fod yn gyson â'r ystyr gwreiddiol;
- Darparu cyngor perthnasol i gydweithwyr yn fewnol ac ar draws teulu ehangach llywodraeth leol;
- Datblygu a chynnal rhwydwaith effeithiol o gysylltiadau ar draws llywodraeth leol a llywodraeth ganolog ac asiantaethau allweddol eraill;
- Rheoli unrhyw staff sy'n adrodd i'r swydd; a
- Chynnal unrhyw waith perthnasol arall yn ôl yr angen.

Manyleb berson

Rydym yn chwilio am ystadegydd cymwysedig. Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus brofiad o ymgymryd ag ymchwil a chymhwyso dadansoddiad ystadegol yn effeithiol mewn

sefyllfaoedd byd go iawn. Gyda sgiliau rhyngbersonol o'r radd flaenaf, bydd yr ymgeisydd delfrydol yn gallu cyfathrebu gwybodaeth yn effeithiol i amrediad o gynulleidfaoedd, er enghraifft, i esbonio canfyddiadau ymchwil, neu i herio defnydd data.

Cymwyseddau technegol

- Wedi ei addysgu i lefel gradd mewn ystadegau ffurfiol a/neu ymchwil, neu feddu ar brofiad perthnasol;
- Gallu cymhwyso egwyddorion ystadegol ac ymchwil priodol i broblemau;
- Gallu cymhwyso gwybodaeth dechnegol yn gywir, gan gynghori pobl eraill ar ddefnydd priodol data;
- Gallu dadansoddi a chyflwyno data (gan gynnwys data daearyddol-gofodol) yn effeithiol, gan ddefnyddio pecynnau meddalwedd priodol yn ôl yr angen;
- Gallu cynghori'r sawl nad ydynt yn ystadegwyr gan ddefnyddio iaith annhechnegol; ac yn
- Hyddysg iawn yn nefnydd pecynnau meddalwedd MS Office.

Cymwyseddau ymddygiadol

Cyfeiriwch at ein "Fframwaith Cymwyseddau" am fanylion y cymwyseddau sy'n ofynnol. Cymwyseddau Gradd 5 sy'n berthnasol i'r swydd hon.

Yr hyn y gallwn ei gynnig

Rydym yn sefydliad dysgu sydd ag ymrwymiad i ddysgu a datblygu. Rydym yn gwerthfawrogi'n pobl ac mae hynny'n dangos. Buddsoddwyr mewn Pobl a ddyfarnwyd i ni yn 2001 ac yr ydym wedi ei gynnal yn ddi-dor am y 19 blynedd diwethaf.

Gweithredwn gynllun gweithio hyblyg sy'n rhoi'r cyfle i'n gweithwyr fod yn hyblyg o ran eu gwaith ar yr un pryd â sicrhau bod anghenion y busnes a'n cwsmeriaid yn cael eu diwallu. Mae hyn yn cynnwys y cyfle i weithio o gartref neu leoliadau eraill yn ôl yr angen.

Yr hyn a ddisgwyliwn gennych chi

Gyda hyblygrwydd fe ddaw gyfrifoldeb. Disgwyliwn i'n staff fod yn gryf eu cymhellant a'u hymrwymiad at ein gwaith ni.

Diddordeb o hyd?

Am ragor o wybodaeth, neu i drafod y cyfle hwn, cysylltwch â Andrew Stephens, Cyfarwyddwr Gweithredol ar 029 2090 9500 neu e-bostiwch Andrew.stephens@data.cymru.

I wneud cais am y swydd hon, anfonwch gopi o'ch CV gyda llythyr sy'n esbonio'n fanwl sut rydych yn bodloni gofynion y swydd at Richard Palmer, Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Richard.palmer@data.cymru), i gyrraedd erbyn **canol dydd ar ddydd Mawrth 28 Gorffennaf 2020** fan bellaf. Bydd rhith-gyfweliadau yn cael eu cynnal ar **ddydd Mercher 12 Awst 2020.**